**Nodiadau drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024
Cynhaliwyd yn 3.0, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams
Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd Dros Dro |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-Gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu iechyd a Sgrinio |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Rebecca Masters | (RM) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd |
| Jan Mellowship | (JM) | Cyd-Gadeirydd Rhwydwaith Staff |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr y Staff a Chyd-Gadeirydd y Rhwydwaith Staff |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |

UNCONFIRMED

*Dechreuodd y cyfarfod am 13:30*

| Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol **2024.09.26/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Croesawodd NE bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion wyneb yn wyneb ac ar-lein. Nododd mai pwrpas y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn o'r Bwrdd oedd adolygu cyflawniadau'r flwyddyn 2023-2024 gan gynnwys y sefyllfa ariannol, trafod y cyfleoedd a'r heriau sydd o'n blaenau, yn ogystal â chyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a staff.<br><br>Crynhodd NE y newidiadau i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ffarwelio â Jan Williams, Kate Eden, a Mohammed Mehmet, a chroesawodd yr aelodau newydd Claire Jenkins, Tamsin Ramasut, a Claire Birchall.<br><br>**Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau** a restrir uchod. | |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/2** | **Datganiadau ariannol 2023/24** |
| Cyflwynodd HG sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24, gan amlygu bod y sefydliad wedi cyrraedd yr holl dargedau ariannol a dyletswyddau statudol, ac wedi cynnal sylfaen ariannol gref.<br><br>Pwysleisiodd y pwyntiau allweddol a ganlyn:<br>• Cyflawnodd y sefydliad yr holl dargedau ariannol a dyletswyddau statudol.<br>• Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion adrodd a'r terfynau amser.<br>• Nododd y sefydliad bod gwarged bach o £51,000 ar gyfer y flwyddyn. | |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/3** | **Crynodeb o Weithgaredd – Adroddiad Blynyddol 2023/24** |
| Darparodd TC grynodeb o weithgareddau'r flwyddyn a gyflwynwyd fel rhan o Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2023/24.<br><br>Diolchodd TC i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan bwysleisio ymroddiad a thalent bron i 2,500 o aelodau staff. Diolchodd hefyd i Aelodau'r Bwrdd gan gyfeirio'n benodol at gyfraniadau'r cyn-Gadeirydd Jan Williams a oedd wedi gadael y sefydliad ym mis Mehefin 2024.<br><br>Pwysleisiodd y llwyddiannau ar draws pob un o'r blaenoriaethau strategol:<br>• **Dylanwadu ar benderfynyddion iechyd ehangach:**<br>  ○ Canolbwyntiwyd ar fynd i'r afael ag argyfwng costau byw, cyflogaeth, addysg a thegwch iechyd.<br>  ○ Cefnogwyd memorandwm Llywodraeth Cymru gyda Sefydliad Iechyd y Byd. | |

UNCONFIRMED

UNCONFIRMED

- **Hyrwyddo Llesiant Meddyliol a Chymdeithasol:**
  - Mentrau mewn ysgolion, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, ac atal trais.
  - Sefydlwyd system wyliadwriaeth bosibl i Gymru gyfan ar gyfer atal troseddau.

- **Hyrwyddo ymddygiadau iach**
  - Cydweithiwyd ar bwysau iach, Cymru ddi-fwg, a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion.
  - Cefnogwyd gofal sylfaenol wrth symud i atal.

- **Cefnogi Cynaliadwyedd y GIG:**
  - Ffocws ar ddiabetes, iechyd y geg, a gwasanaethau diogelu.
  - Datblygwyd offer ac ymyriadau ar gyfer gofal sylfaenol.

- **Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio:**
  - Rheolwyd clefydau heintus, darparu cyngor strategol, a chynnal rhaglenni sgrinio.
  - Wedi adfer o'r amhariadau yn sgil COVID-19 ac ehangu sgrinio'r coluddyn.

- **Mynd i'r afael â newid hinsawdd:**
  - Cynhaliwyd asesiad o effaith newid hinsawdd ar iechyd.
  - Gweithredwyd arferion cynaliadwy mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau sgrinio.

- **Swyddogaethau Galluogi:**
  - Pwysleisiwyd pwysigrwydd llywodraethu ansawdd, galluogi digidol, a chyfathrebu cryf.
  - Amlygwyd datblygiad strategaethau ar gyfer data digidol, ymchwil ac iechyd rhyngwladol.

- **Datblygiad Diwylliannol a Sefydliadol:**
  - Canolbwyntiwyd ar arweinyddiaeth, rheolaeth, ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Cyfeiriodd TC yn benodol hefyd at bwysigrwydd rhwydweithiau staff a'u cyfraniadau i Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'u rôl wrth lunio diwylliant y sefydliad.

| Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/4 | Ymgysylltu â Rhwydweithiau Staff |
|---|---|

Gwnaeth CS a JM gyflwyniad i'r Bwrdd ar gyflawniadau allweddol y Rhwydweithiau Staff yn ystod 2023/24, gan amlygu eu rôl wrth hyrwyddo cynhwysiant a darparu gofod diogel i staff rannu profiadau.

Ymhlith y llwyddiannau roedd y Cyd-Gadeiryddion yn mynd i'r cyfarfodydd Bwrdd ar raglen dreigl 2 flynedd i ddarparu crynodeb o'r gweithgarwch yn ogystal â gofyn i'r Bwrdd am gefnogaeth i ddatblygu gwaith y rhwydweithiau.

| | |
|---|---|
| Cyfeiriodd CS a JM hefyd at y Gynhadledd Rhwydwaith gyntaf a gynhaliwyd ym mis Mai 2023, a chrynhoi'r ymgyrchoedd rhwydwaith amrywiol a oedd wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn.<br><br>Daethant i ben gyda chrynodeb o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r rhwydweithiau gan gynnwys gofynion amser ar y cyd-gadeiryddion, sicrhau cyfathrebu effeithiol a sicrhau bod y rhwydweithiau'n parhau i greu gofod diogel i staff. | |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/5** | **Canolbwyntio ar Newid Hinsawdd** |
| Trafododd SA, RM, a HG ymdrechion y sefydliad i fynd i'r afael â newid hinsawdd.<br><br>Amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:<br>• Datblygu map llwybr newid hinsawdd yn amlinellu ein hymateb strategol i addasu i niwed newid hinsawdd a lliniaru yn ei erbyn.<br>• Cryfhau'r trefniadau partneriaeth gyda'r system iechyd ehangach, y byd academaidd, a phartneriaid iechyd rhyngwladol.<br>• Mentrau mewnol i leihau ôl troed carbon a hyrwyddo arferion cynaliadwy megis y rhaglen ddatgarboneiddio. | |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/6** | **Sesiwn Holi ac Ateb** |
| Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd i'w hystyried. | |
| **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024.09.26/6** | **Crynodeb a Diwedd y dydd** |
| Daeth NE â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau. | |
| Daeth i ben am 15:30 | |

UNCONFIRMED